## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 16 Rhagfyr 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid a Datblygu Gwledig; David Smith, Aelod Arweiniol dros Barthau Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts a Cefyn Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Cyllid ac Asedau (PM), Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Addysg (KE), Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (GB), a Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Swyddog Costau Gwasanaeth (DO), Swyddogion Gwella Corfforaethol (NK ac IM), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Barbara Smith

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan.

### 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2014

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

### 5 YMGYNGHORIAD- YSGOL ESGOB MORGAN

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd ar gynigion i newid Ysgol Esgob Morgan o fod yn ysgol iau gymunedol i fod yn ysgol iau o ffydd Anglicanaidd gan ddod i rym ar 1

Medi 2015. Roedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r gymryd y cam nesaf – sef cyhoeddi hysbysiad statudol i wneud y cynnig i newid enwad yr ysgol.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad a nododd y byddai'r cynnig yn helpu gyda'r broses o drosglwyddo disgyblion o St. Asaph VP Infants i Ysgol Esgob Morgan a symleiddio unrhyw gynigion i gyfuno yn y dyfodol rhwng y ddwy ysgol. Wrth ymateb i gwestiynau fe fanylodd y swyddogion ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad wedi'i deilwra ar gyfer y disgyblion, ac yn rhoi golwg gyffredinol ar y dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd. Ystyriwyd nad oedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebwyr yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ysgol. Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch yr effaith ar safonau addysg ac fe gadarnhaodd swyddogion na fyddai unrhyw effaith negyddol ond yn hytrach byddai gwelliannau cadarnhaol o ganlyniad i gryfhau cysylltiadau presennol gyda'r eglwys.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i wneud y cynigion canlynol -*

- *Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cau Ysgol Esgob Morgan ar 31 Awst 2015; a*
- *Bydd Esgobaeth Anglicanaidd Llanelwy yn agor Ysgol Ffydd Anglicanaidd newydd a Reolir yn Wirfoddol i wasanaethu cymunedau Llanelwy a'r ardaloedd cyfagos ar 1 Medi 2015 ar safle Ysgol Esgob Morgan.*

## 6 CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH

Fe gyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ail-ddynodi cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddianaeth yn y Rhyl, ynghyd ag amodau a ffioedd trwyddedu cysylltiedig. Mae'r cynllun ychwanegol ar hyn o bryd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2014, ac yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad cynhwysfawr, argymhellwyd bod y cynllun yn cael ei ail-ddynodi am bum mlynedd arall.

Ystyriodd y Cabinet ganfyddiadau'r adolygiad a'r ymgynghoriad ac roeddent yn gefnogol i'r cynllun fel ffordd o wella safonau llety. Cadarnhaodd y swyddogion bod Cyngor Tref y Rhyl a Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl yn cefnogi a bod ymgynghoriad wedi'i gynnal ag awdurdodau lleol eraill er mwyn rhannu arfer gorau. Gofynnwyd am sicrwydd bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer gorfodaeth tai ac fe eglurodd y swyddogion mai dim ond un allan o amrywiaeth o fesurau i sicrhau gwelliant yw gorfodaeth a'u bod yn fodlon bod adnoddau priodol ar gael o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol. Cyflwyno'r cynllun wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth gwasanaeth. Amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y ddadl craffu ar ail-ddynodi'r cynllun a chadarnhaodd eu bod yn cefnogi hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo ail-ddynodi cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn y Rhyl am 5 mlynedd arall fel y nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad;*

(b) *cymeradwyo’r Amodau i'w gosod fel rhan o Gynllun Trwyddedu "Ychwanegol” a “Gorfodol" fel y nodir yn Atodiad 2 o’r adroddiad;*

(c) *cymeradwyo’r Ffioedd i'w gosod fel rhan o Gynllun Trwyddedu "Ychwanegol” a “Gorfodol" fel y nodir yn Atodiad 3 o’r adroddiad, a*

(d) *cefnogi’r syniad na ddylai’r dyddiad gweithredu fod yn hwyrach nag 1 Ebrill 2015 sy’n cydymffurfio â’r isafswm cyfnod statudol o 3 mis rhwng dynodiad cymeradwy a gweithredu.*

**7 AMRYWIO CYTUNDEBAU TENANTIAETH TAI CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad sy’n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r cytundeb tenantiaeth newydd gyda rhybudd ffurfiol o amrywiad. Mae’r cytundeb tenantiaeth wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith ac arfer ac i alluogi’r cyngor i ddelio â materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy effeithiol.

Nododd y Cabinet bod y cytundeb tenantiaeth wedi bod yn destun proses adolygu ac ymgynghori cynhwysfawr gan dderbyn llawer o adborth cadarnhaol. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r cytundeb newydd ar gyfer tenantiaid presennol a newydd hefyd wedi nodi diwygiad o 1 Ionawr 2015 sy’n berthnasol i denantiaid newydd. Roedd y Cynghorydd Irving yn falch o adrodd ar gyfraniad cadarnhaol y Grŵp Cynghori Tenantiaid o fewn y broses. Croesawodd yr Aelodau y cytundeb newydd fel dogfen gadarn sy'n darparu cysondeb i’r holl denantiaid ac roeddent yn hapus i nodi lefel y mewnbwn gan denantiaid a rhanddeiliaid eraill wrth ei chreu. O ran darpariaeth Gymraeg fe gadarnhaodd y swyddogion y byddai'r holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog a byddai ceisiadau am braille neu ieithoedd eraill yn cael eu trin ar sail un i un.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn mabwysiadu'r fersiwn derfynol ddiwygiedig o’r Cytundeb Tenantiaeth Tai Cyngor gyda Rhybudd Terfynol o Amrywio fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**8 DADELFENNU NEWIDIADAU GWASANAETH AR GYFER TENANTIAID Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet ar yr egwyddorion allweddol er mwyn penderfynu sut y byddai taliadau gwasanaeth yn cael eu cyfrifo a'u gweithredu o renti o fis Ebrill 2015. Roedd yr adroddiad wedi cael ei baratoi mewn ymateb i bolisi gosod rhent newydd Llywodraeth Cymru a oedd yn gofyn i daliadau gwasanaeth gael eu gwahanu o daliadau rhent tenantiaid i nodi'n glir pa wasanaethau y maent yn talu amdanynt a thaliadau a wnaed.

Ystyriodd y Cabinet yr opsiynau yn yr adroddiad er mwyn bodloni'r gofyniad a derbyniwyd y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad i fabwysiadu polisi tâl amrywiol i adennill taliadau gwasanaeth ac i leihau rhent am y flwyddyn gyntaf yn ôl swm a dderbyniwyd o wasanaethau y codir tâl amdanynt. Fe dynodd y Cynghorydd Bobby Feeley sylw at gymhlethdod y broses a gofynwyd am sicrwydd y byddai'r

newidiadau yn cael eu cyfleu'n effeithiol i denantiaid. Roedd hi'n arbennig o bryderus am yr effaith anghymesur ar gyfadeiladau gwarchod a oedd yn effeithio pobl hŷn yn bennaf a sut y byddai hynny'n cael ei reoli. Eglurodd y Swyddog Tâl Gwasanaeth (SCO) y byddai taliadau yn uwch mewn cynlluniau gwarchod oherwydd y costau cynnal ardaloedd cymunedol a fyddai'n cael ei liniaru yn rhannol ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-dal tai a chan y cynnig i leihau rhenti yn y flwyddyn gyntaf ac yna polisi dyrchafol. Mewn ymateb i bryderon cyfathrebu, fe gytunodd i ystyried cysylltiad pellach gyda chyfadeiladau gwarchod i egluro materion. Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r dull amrywiol yn arwain at gynnydd mewn costau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod o ganlyniad i beidio â chodi digon o dâl arnynt. Roedd y STG yn hyderus bod y rhagamcanion wedi cael eu cyfrifo yn gywir, gan roi manylion ar gyfanswm y gwaith a wnaed yn y cyswllt hwnnw. Cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw fecanwaith i eithrio allan ar gyfer tenantiaid.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno ar yr egwyddorion allweddol a fydd yn penderfynu sut y bydd taliadau gwasanaeth yn cael eu cyfrifo a'u gweithredu o renti o fis Ebrill 2015 ymlaen fel y nodwyd yn yr adroddiad, yn benodol i -*

- *fabwysiadu polisi Codi Tâl Amrywiol ar gyfer dosraniad ac adennill i bob Tenant sy'n derbyn gwasanaethau, a*

- *bod rhenti unigol yn cael eu lleihau yn y flwyddyn gyntaf gan gyfanswm y gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt y mae tenantiaid yn eu derbyn.*

*bod y Cabinet yn nodi y bydd papur arall yn cael ei ystyried ar y taliadau terfynol fel rhan o broses bennu rhent tai cyngor blynyddol y cyngor ym mis Chwefror 2015.*

**9 ADRODDIAD Y CYNLLUN Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 2 2014 – 15)**

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Barbara Smith, cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 o 2014/15. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys perfformiad mewn perthynas â'r Cytundeb Canlyniadau a'r Gofrestr Prosiectau.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn fwy ffafriol na'r chwarter blaenorol, yn enwedig o ran yr economi leol ac fe amlygodd nifer o welliannau. Cyfeiriwyd at effaith y toriadau ariannol a'r cysylltiadau rhwng gwneud penderfyniadau o gwmpas broses y gyllideb a'r Cynllun Corfforaethol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd i barhau gydag uchelgeisiau a blaenoriaethau'r Cyngor fel y manylir yn y Cynllun Corfforaethol.

Holodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y tebygolrwydd o dderbyn taliad llawn o'r grant cytundeb canlyniadau. Fe gyfeiriodd y swyddogion at y broses o gyd-drafod targedau gyda Llywodraeth Cymru ac ni ragwelwyd unrhyw golli pwyntiau a fyddai'n effeithio ar y swm sy'n daladwy ar gyfer 2014-15. Disgwylir penderfyniad terfynol ym mis Ionawr o ran y cytundeb ar berfformiad ar gyfer 2013-2014. Amlygodd y Cynghorydd David Smith ei bryderon ynghylch cynnal a chadw priffyrdd ac er ei fod yn gobeithio y byddai safon dderbyniol yn cael ei gynnal, ni

fyddai modd ei warantu ar gyfer y blynyddoedd i ddod o ystyried y sefyllfa ariannol a chael gwared ar gyllid LABGI (Menter Twf Busnesau Awdurdodau Lleol).

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant o £327,000 yn y gyllideb refeniw ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chyllidebau corfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1 miliwn yn rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd mae 90% wedi eu cyflawni ac mae 10% yn mynd rhagddynt
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion sy’n berthnasol i feysydd gwasanaeth unigol, a
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â’r Cyfrif Refeniw Tai; y Cynllun Tai Cyfalaf a’r Cynllun Cyfalaf (yn cynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd i gymeradwyo trosglwyddiad o £20,000 i'r Gronfa Gwasanaeth Crwner.

Darparodd y Cynghorydd David Smith ddiweddariad ar Gam 3 o Brosiect Amddiffyn Môr Gorllewin y Rhyl ac fe nododd yr aelodau y byddai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf yn fuan. Fel Cadeirydd TAITH, fe adroddodd y Cynghorydd Smith ar lythyrau a anfonodd at y Gweinidog Busnes ynghylch pryderon am incwm o Asiantaeth Cefnffordd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac i'r Gweinidog Cyllid ynghylch pryderon am gyllid LAGBI, y mae o’n aros am ymatebion. Ailadroddodd y Cynghorydd Eryl Williams ei bryderon blaenorol ynghylch goblygiadau o ran dyrannu cyllid ar gyfer y gwelliannau M4 a gofynnodd i lythyrau gael eu hanfon at Aelodau'r Cynulliad yn hynny o beth. Mewn perthynas â'r gostyngiad yn y Grant Cefnogi Pobl, adroddodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar sefydlu cronfa wrth gefn i reoli'r mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

*(b) cymeradwyo trosglwyddo £20,000 i Gronfa Gwasanaeth y Crwner, a*

*(c) bod y Cyngor yn ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru i ofyn am eu barn am y gostyngiad yn y cyllid a roddir i briffyrdd Sir Ddinbych a’r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y gwelliannau i’r M4.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

Holodd y Cynghorydd Bobby Feeley ynglŷn â'r posibilrwydd o ohirio Cynigion Moderneiddio Addysg ar gyfer ardal Rhuthun er mwyn caniatáu amser ychwanegol i ystyried yr opsiynau. Y Cynghorydd Eryl Williams yn awyddus i'r eitem fynd yn ei flaen ym mis Ionawr o gofio bod y prosiectau penodol eisoes wedi cael eu gohirio er mwyn galluogi pob prosiect i gael eu hystyried ar yr un pryd, a thynnodd sylw at yr angen am gyllid i gael ei ddyrannu yn ffurfiol. Teimlai hefyd nad oedd digon o amser ar gyfer yr holl randdeiliaid i ystyried y cynigion ymlaen llaw. Anogodd yr Arweinydd yr holl aelodau i geisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n weddill cyn y cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd awgrym y Pennaeth Cyllid ac Asedau i ddileu'r eitem Trethi Busnes o'r rhaglen waith ym mis Ionawr.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Ar y pwynt hwn (11.25 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**12 DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL MEWNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gytuno ag ymgynghoriad ar wasanaethau gofal cymdeithasol mewnol y dyfodol. Cyfranodd gyd-destun i'r adroddiad gan dynnu sylw at ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ac effaith y toriadau sylweddol yn y gyllideb.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaethau gofal cymdeithasol mewnol y Cyngor ac ar eu hargymhelliad i allanoli gwasanaethau ac arbed £700,000 a gytunwyd arno fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwnnw roedd angen ymgymryd ag ymarfer ymgynghori, gan gynnwys asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Mae llawer o sylw wedi bod ar y cynnig i gau y tri chartref gofal preswyl presennol a chafwyd sicrwydd ar y cychwyn cyntaf na fyddai unrhyw un ohonynt yn cael eu cau oni bai fod modd diwallu gofynion y trigolion mewn darpariaeth arall. Roedd y Cynghorydd Feeley hefyd yn awyddus i dynnu sylw at ansawdd y ddarpariaeth yn y sector preifat a oedd wedi bod yn destun rhywfaint o gyhoeddusrwydd annheg gan gynghori bod bron i 90% o leoliadau cartrefi gofal a ariennir gan y Cyngor yn y cartrefi sector preifat.

Cyfeiriodd y Cabinet at yr effaith y byddai cau cartrefi gofal yn ei gael ar eu preswylwyr, teuluoedd a chymunedau ehangach. Roedd yr aelodau'n awyddus i archwilio'r posibilrwydd o opsiynau eraill, fel cynlluniau tai gofal ychwanegol ynghyd â phecynnau gofal gwell gan alluogi pobl i fyw gartref yn annibynnol am gyfnod hirach, ond tynwyd sylw at yr angen i ystyried a allai anghenion defnyddwyr gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol gael eu diwallu o fewn eu hardaloedd presennol pe baent yn bwrw mlaen â'r cynigion. Mae mwy o ddarpariaeth o'r fath i'w gael mewn ardaloedd mwy poblog y sir ond yn brin yn y De, yn enwedig yn ardal Corwen ac mae angen rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth iaith Gymraeg wrth ymgymryd ag asesiadau effaith ar unigolion. Ymhelaethodd y swyddogion ar y cynnydd o ran

datblygu darpariaeth amgen mewn ardaloedd penodol ynghyd â'r broses ymgynghori a fyddai'n cynnwys cyfarfod â phreswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd i egluro sut y gellir darparu gwasanaethau a chasglu barn ar unrhyw newidiadau. Byddai asesiad effaith ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn cael ei wneud a fyddai'n cynnwys darpariaeth iaith Gymraeg. Teimlai'r Aelodau y byddai'n fanteisiol cael y Grŵp Grwp Tasg a Gorffen i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn i'r mater gael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Ebrill/Mai 2015.

Fe dynodd y Cynghorydd Ray Bartley sylw at yr angen am ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ac fe ysgogodd hynny drafodaeth hir am natur yr ymgynghoriad i'w gynnal o ran safbwyntiau canfasio a diwallu anghenion penodol y defnyddwyr gwasanaeth presennol a'r ddadl ehangach ar foderneiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Yn gyffredinol derbyniwyd bod angen dau ymgynghoriad ar wahân. Amlygwyd yr angen am gyfathrebu effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a staff hefyd ynghyd â rheolaeth briodol o'r wasg. Pwysleisiodd y Cynghorydd Cefyn Williams fod Cysgod y Gaer yn rhan bwysig o'r gymuned leol a oedd eisoes wedi bod yn destun cau ysgolion a chyfleusterau llai ac roedd yn bryderus bod darpariaeth arall addas yn golygu symud allan o'r ardal i drigolion lleol.

Ystyriodd y Cabinet bod angen i ddiwygio'r argymhellion yng ngoleuni'r ddadl ac yn dilyn hynny -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i -*

*(a) yn unol â'r fframwaith statudol priodol, ymgynghori â phob defnyddiwr gwasanaeth unigol a'u teulu o ran y cynigion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad i gynnwys asesiad o'u hanghenion ac argaeledd darpariaeth arall addas i ddiwallu'r anghenion hynny;*

*(b) cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ehangach ar foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol;*

*(c) cyflwyno adroddiad/adroddiadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau y cyfeirir atynt yn (a) a (b) uchod i'r Grŵp Tasg a Gorffen cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet gydag arfarniad opsiynau ar gyfer pob un o'r gwasanaethau, a*

*(d) bod y Cabinet yn cadarnhau na fydd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth unigol yn cael ei symud oni bai bod darpariaeth arall addas yn cael ei nodi.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 13, 14, 15 ac 16 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**13 MORFA LODGE, FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN A'R TIR YN FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN**

Fe gyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymell i'r Cabinet gymeradwyo i ddatgan nad oes angen y fferm a'r tir, a'u gwerthu ar y farchnad agored.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig gan nodi bod gwarediad yn cydymffurfio â strategaeth ystadau amaethyddol y Cyngor ac y byddai'n creu derbynneb cyfalaf sylweddol a fyddai'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r tir yn cael ei rhannu'n lotiau i wneud y mwyaf o'r incwm a gynhyrchir gan ymateb i gwestiynau ynghylch defnydd tir posibl. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau hefyd ynghylch polisi ac arfer cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli ystadau a datblygiadau amaethyddol sy'n berthnasol i ffermydd penodol. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo datgan Morfa Lodge Farm, a thir yn Ffordd Abergele (ag ymyl coch ar Atodiad A ynghlwm wrth yr adroddiad) fel tir dros ben a chymeradwyo cael gwared ar y fferm ar y farchnad agored trwy arwerthiant.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.